CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

# MATERION, GWELEDIGAETH AC AMCANION

Mehefin 2023



PAPUR CEFNDIROL - BP2

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

This document is available in English/ Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# Cynnwys:


**1. CYFLWYNIAD .......... 2**

**2. CYD-DESTUN CEFNDIROL .......... 4**

**3. PRIF FATERION A THEMÂU .......... 5**

**4. GWELEDIGAETH Y CDLIN .......... 8**

**5. AMCANION Y CDLIN .......... 12**

Tabl 1 – Cymhariaeth rhwng Amcanion a Phrif Themâu y CDLl: .......... 18

Tabl 2 – Cymhariaeth rhwng Amcanion y CDLIN a Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: .......... 19

Tabl 3 – Cymhariaeth rhwng Amcanion y CDLIN a Phrif Egwyddorion Cynllunio Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11: .......... 20

Tabl 4 – Cymhariaeth rhwng Amcanion y CDLIN a Chynllun Llesiant y BGC ac Amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor: .......... 21

**6. ATODIAD .......... 22**

6.1. Atodiad 1: Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r prif Faterion sy'n wynebu Bro Morgannwg? .......... 22

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r papur cefndir hwn wedi'i lunio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg 2021 - 2036. Mae'n esbonio esblygiad yr ymagwedd tuag at y Weledigaeth arweiniol ar gyfer y CDLIN a'r Amcanion a fydd yn amlinellu'r modd y bydd y Weledigaeth yn cael ei chyflawni.

**1.2.** Mae'r adroddiad yn nodi'r prif Faterion sy'n wynebu Bro Morgannwg y bydd y Weledigaeth a'r Amcanion wedi'u diweddaru yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae'r Materion hyn wedi'u nodi gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth, gan gynnwys: Adroddiad Adolygu'r CDLl ac Adroddiadau Monitro Blynyddol; Asesiad Llesiant Bro Morgannwg, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ystod o bolisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn ogystal â thystiolaeth amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a gasglwyd fel rhan o Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig y Cyngor.

**1.3.** Bydd y Weledigaeth a'r Amcanion yn ganolog i'r Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor ar gyfer y CDLIN. Felly, yn unol â Chynllun Cynnwys Cymunedau y CDLIN, mae'r Cyngor wedi gofyn am farn rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Cynllun newydd. Mae hyn wedi cynnwys cyfres o weithdai ymgysylltu gyda Chynghorwyr Etholedig Bro Morgannwg, Cynghorau Cymuned Lleol, ac aelodau o Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Bro Morgannwg[1] (BGC). Prif bwrpas y gweithdai hyn oedd galluogi rhanddeiliaid i gael mewnbwn uniongyrchol i'r broses o lunio'r Cynllun a datblygu perchnogaeth ar y cyd o'r Cynllun wrth iddo fynd ymlaen trwy ei wahanol gamau.

| **Gwahoddedigion Gweithdai** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cynghorwyr Etholedig Bro Morgannwg | 05/09/22 |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg | 14/10/22 |
| Cynghorau Cymuned Bro Morgannwg | 21/10/22 |
| Cynghorau Tref Bro Morgannwg | 15/12/22 |
| Swyddogion Cyngor o wahanol wasanaethau | 14/02/23 |

**1.4.** Cyn y gweithdai hyn, derbyniodd pawb a wahoddwyd nodyn briffio a oedd yn cynnwys y Weledigaeth a'r Amcanion drafft, yn ogystal ag arolwg yn gofyn am eu barn ar amrywiaeth o bynciau, yn amrywio o dai i Newid yn yr Hinsawdd. Nod yr arolwg hwn oedd sefydlu'r prif faterion y dylai'r CDLIN fynd i'r afael â nhw, ac uchelgeisiau ar gyfer dyfodol Bro Morgannwg. Gwahoddwyd y rhai nad oedd yn gallu dod i'r gweithdy hefyd i rannu eu barn drwy arolwg Microsoft Forms.

[1]Mae BGC Bro Morgannwg yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Bro Morgannwg. Ymhlith y partneriaid mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu De Cymru. I weld rhestr lawn o bartneriaid ewch i https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Public-services-board/Public-Service-Board.aspx

**1.5.** Mae sylwadau o'r arolygon a'r gweithdai hyn wedi cael eu hadolygu gan y tîm Polisi Cynllunio ac wedi arwain at newidiadau sylweddol i'r Weledigaeth a'r Amcanion.

**1.6.** Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgysylltu hwn a sut y dylanwadodd ar ddatblygiad Gweledigaeth y CDLIN, a’r Amcanion i'w gweld yn Adroddiad Ymgynghori’r Cyngor.

## 2. CYD-DESTUN CEFNDIROL

**2.1.** Dechreuodd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig Bro Morgannwg ym mis Mehefin 2021, gyda'r Adroddiad Adolygu yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2022. Ystyriodd yr adolygiad hwn y newidiadau cyd-destunol, deddfwriaethol a pholisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl, yn ogystal â pherfformiad y CDLl o ran sut mae'r polisïau wedi cyflawni gweledigaeth, nodau a strategaeth y Cynllun o ystyried canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol a gynhaliwyd gan y Cyngor ers mabwysiadu'r Cynllun.

**2.2.** Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad er bod y Cynllun wedi perfformio'n dda o ran cyflawni ei Weledigaeth, a'i Amcanion, oherwydd newidiadau mewn polisi cenedlaethol a rhanbarthol, y dylid cynnal adolygiad llawn o'r CDLl. Felly, fe wnaeth cyhoeddi Adroddiad Adolygu'r CDLl sbarduno'r broses ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r CDLlN gan y Cyngor.

**2.3.** Mae'n hanfodol bod y Cynllun Newydd yn ymdrechu i gyflawni'r saith Nod Llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n amlinellu'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gydweithio i gyflawni gwelliannau o'r fath ac mae iddo saith nod, (fel y gwelir yn Ffigur 1) sy'n cynnig gweledigaeth a rennir i ymdrechu i'w chyrraedd. Bydd y nodau hyn yn hanfodol i'w hystyried wrth lunio'r Weledigaeth a'r Amcanion a fydd yn sail i CDLl Newydd Bro Morgannwg (CDLlN).

**Ffigur 1:**Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)




**Ffynhonnell:**Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021)

## 3. PRIF FATERION A THEMÂU

**3.1.** Mae'r Materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r prif heriau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, a diwylliannol y mae'r Cynllun newydd yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae adolygiad o sylfaen dystiolaeth eang a manwl wedi nodi nifer o themâu y mae Materion cysylltiedig wedi'u grwpio oddi tanynt. Mae'r rhestr isod yn rhoi dadansoddiad o sylfaen y dystiolaeth bresennol yr ymgynghorwyd â hi:

- Deddfwriaeth a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg (2020 – 2025)
- Cynllun Llesiant BGC (2023-2028)
- Asesiad Lles Lleol BGC (2022)
- Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl (2018 - 2022)
- Adroddiad Adolygu'r CDLl (2022)
- Adroddiad Adolygu ac Ymatebion yr Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni
- Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (2022)

**3.2.** Roedd esblygiad y themâu a'r Materion hefyd wedi eu llywio gan gyfres o arolygon a gynhaliwyd gyda Chynghorwyr Etholedig Bro Morgannwg, Cynghorau Tref a Chymuned a'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC). Ar ben hynny, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Rhifyn 3 yn tynnu sylw at yr angen i'r system CDLl gyflawni Cynlluniau sydd: yn wydn i Newid yn yr Hinsawdd; yn cefnogi'r newid i gymdeithas garbon isel ac sy'n ymgorffori Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni a amlinellir yn PCC 11.

**3.3.** Y themâu terfynol a'u Materion cysylltiedig sydd wedi rhoi'r sail i'r Weledigaeth a'r Amcanion; mae Adran 6 yr adroddiad hwn yn archwilio'r Materion a nodwyd yn fanylach ac yn amlinellu sut y bydd y CDLlN yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Dyma'r naw thema allweddol:

| Themâu Allweddol y CDLIN |
|---|
| **Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd** |
| Blaenoriaethu addasu i a lliniaru Newid yn yr Hinsawdd, gan sicrhau bod datblygiadau a defnydd tir yn y Fro yn ymateb i'r achosion ac yn wydn i effaith Newid yn yr Hinsawdd. |
| **Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant** |
| Gwella iechyd a lles ein trigolion trwy feithrin cymunedau llesol, iach ar gyfer byw, gweithio ac ymweld â nhw ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol-economaidd mewn modd cynaliadwy. |
| **Cartrefi i Bawb** |
| Mae angen i'r cyflenwad tai allu ymateb i boblogaeth gynyddol yr awdurdod ond rhaid iddo hefyd fod yn briodol o ran math, deiliadaeth a lleoliad. Yn ogystal, rhaid cael darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd mewn angen. |
| **Creu Lleoedd** |
| Hwyluso'r gwaith o ddatblygu cymunedau addasadwy, hygyrch, cysylltiedig iawn sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth, cynnig ystod gynaliadwy o wasanaethau a chyfleusterau ac sydd â seilwaith digonol. |
| **Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol** |
| Gwarchod a gwella ansawdd, cysylltedd a gwydnwch amgylchedd naturiol a seilwaith rhwydwaith gwyrdd / glas y Fro a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ymdrechu i gyflawni budd bioamrywiaeth net. Rhaid rheoli adnoddau naturiol, mwynau a gwastraff mewn ffordd gynaliadwy ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd adnoddau, gan gynnwys defnyddio a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| **Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth** |
| Cadw a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth yr awdurdod, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd a gyflwynir gan y Fro o ran ei hamgylchedd adeiledig a naturiol, ei hunaniaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg. |
| **Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig** |
| Meithrin datblygiad cymunedau sydd wedi'u cysylltu'n dda, sy'n gydlynus a sicrhau bod yr holl brosesau ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl, gan ganiatáu i bawb sy'n dymuno rhannu eu barn drwy gydol proses y CDLIN i wneud hynny. |
| **Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy** |
| Hyrwyddo ac annog defnyddio dulliau cynaliadwy o deithio, yn enwedig dulliau teithio llesol, tra'n lleihau'r angen i deithio ar yr un pryd. |

| Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd |
| --- |
| Hwyluso twf economaidd ledled yr awdurdod, gan sicrhau amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth lleol a strategol a chyfleoedd gwaith mewn ymateb i anghenion cyflogaeth. Dylai'r cyfleoedd hyn allu addasu i newid a meithrin twf gweithlu medrus iawn. |

**3.4.** Mae eglurhad pellach o'r themâu sydd wedi llywio'r Weledigaeth a'r Amcanion i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'r tablau sy'n llunio Atodiad 1 yn manylu ar y materion penodol o fewn pob thema sy'n effeithio ar Fro Morgannwg ac yn amlinellu sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn bwriadu mynd i'r afael â nhw dros gyfnod y Cynllun.

# 4. GWELEDIGAETH Y CDLIN

**4.1.** Er mwyn arwain a rheoli datblygiad y dyfodol, mae'r CDLI a fabwysiadwyd yn gosod gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg hyd at 2026, gan adlewyrchu'r prif faterion, heriau a chyfleoedd. Datblygwyd Gweledigaeth y CDLI presennol drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a chafodd ei lywio gan ystod o strategaethau allweddol gan gynnwys Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg. Mae'r Weledigaeth CDLI mabwysiedig yn datgan:

***"Ein Gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg yw lle:***

- ***Sy'n ddiogel, glân a deniadol, lle mae gan unigolion a chymunedau gyfleoedd cynaliadwy i wella eu hiechyd, eu dysgu a'u sgiliau, eu ffyniant a'u llesiant; a***

- ***Lle ceir ymdeimlad cryf o gymuned lle mae'r gallu a'r cymhelliant gan grwpiau ac unigolion lleol i wneud cyfraniad effeithiol at gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol."***

**4.2.** Fel rhan o'r broses adolygu ac o ystyried y materion presennol a'r pethau sy'n gyrru newid a nodwyd, mae'r Cyngor wedi penderfynu datblygu Gweledigaeth newydd ar gyfer y CDLIN sy'n adlewyrchu'n well yr heriau, y cyfleoedd a dyheadau cymunedau a thrigolion Bro Morgannwg hyd at 2036. Yn gyffredinol, rôl Gweledigaeth y CDLIN yw egluro diben craidd y Cynllun Newydd a gosod fframwaith ar gyfer datblyu'r Strategaeth a ffefrir a pholisïau mwy manwl yn y dyfodol.

**4.3.** Ar ben hynny, er mwyn cadw at y canllawiau a amlinellir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LICD) Rhifyn 3, rhaid i Weledigaeth y CDLIN gyfleu nod y Cynllun a sut y bydd lleoedd yn newid dros gyfnod y Cynllun. Dylai'r Weledigaeth:

| | |
|---|---|
| ✓ | Fod yn ddatganiad cryno, cadarnhaol sydd â ffocws iddi |
| ✓ | Cynnwys pwyslais gofodol, defnydd tir a chyfleu sut mae llefydd wedi'u Cynllunio i ddatblygu, newid neu gael eu gwarchod |
| ✓ | Fod yn benodol ac yn briodol, wedi ei seilio ar ddealltwriaeth glir o'r Materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol |
| ✓ | Fod yn gyson â'r Cynllun a'r Amcanion Llesiant a strategaethau lleol eraill, gan gynnwys Datganiadau Ardal, Cynlluniau Parc Cenedlaethol a Chynlluniau Rheoli AHNE |
| ✓ | Adlewyrchu gwahaniaethau daearyddol amrywiol o fewn ardal yr ACLI ehangach |

**Ffynhonnell:** Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (Mawrth

**4.4.** Yn ogystal â chyhoeddi'r LICD (Rhifyn 3), mae amryw o bolisïau Cynllunio Cenedlaethol a newidiadau deddfwriaethol wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl. Bydd llawer o'r rhain yn effeithio ar y ffordd y mae CDLlau yn cael eu paratoi wrth symud ymlaen, ac felly mae'n rhaid eu hystyried wrth lunio'r CDLlN, ac yn sgil hynny, y Weledigaeth hon. Mae manylion pellach am y newidiadau hyn, a sut y gallant effeithio ar y CDLlN, i'w gweld yn Adran 3 yr Adroddiad Adolygu CDLl mabwysiedig.

**4.5.** Mae'r Weledigaeth hon yn tarddu o'r Materion a'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae llunio'r Weledigaeth hefyd wedi'i lywio gan randdeiliaid allweddol; mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn Adroddiad Ymgynghori'r Cyngor.

**4.6.** Mae'r Weledigaeth a'r Amcanion a baratowyd ar gyfer y CDLlN hefyd yn bwriadu helpu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgais cyffredinol o ddatblygu *'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'*. At hynny, mae'r ddau wedi'u paratoi yn unol â phedwar Amcan llesiant allweddol y Cyngor a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol:

1. *Gweithio gyda a thros ein cymunedau.*
2. *Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy .*
3. *Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned.*
4. *Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.*

**4.7.** Ers mabwysiadu'r CDLl presennol mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd ac ym mis Chwefror 2021 fe lansiodd BGC Bro Morgannwg eu Siarter Argyfwng Hinsawdd. Mae'r siarter hon yn amlinellu ymrwymiadau'r BGC i leihau allyriadau a lliniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd wrth addasu i'w effeithiau. Ar ben hynny, mae Argyfwng Natur wedi cael ei ddatgan gan Gyngor Bro Morgannwg mewn ymgais i ddiogelu bioamrywiaeth yn y sir. Mae'r ddau ddatganiad felly wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Weledigaeth a'r Amcanion ac wedi cyfrannu'n sylweddol at bennu'r naw thema allweddol, fel y darluniwyd yn Adran 3.

**4.8.** Hefyd, ym mis Mawrth 2017, cadarnhawyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn ffurfiol gan y deg awdurdod lleol ar draws rhanbarth de-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg. Cylch gwaith P-RC yw hybu twf economaidd drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth, addysg a sgiliau, creu cyfleoedd cyflogaeth a chefnogi twf busnes. Bydd y CDLlN yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawn'r rhaglen fuddsoddi a Gynlluniwyd gan P-RC.

**4.9.** Mae'r weledigaeth CDLlN canlynol yn trosi sut bydd y CDLlN yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau, y cyfleoedd a'r uchelgeisiau ar gyfer Bro Morgannwg ar draws cyfnod y Cynllun newydd.

## “Erbyn 2036:

*Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei darged o fod yn ddi-garbon erbyn 2030. Mae wedi mabwysiadu technegau arloesol a defnyddio adnoddau yn effeithlon i liniaru ei effaith ar yr amgylchedd, ac mae prosiectau di-garbon enghreifftiol gan gynnwys ysgolion a rhwydweithiau gwresogi ardal wedi'u gweithredu. Mae datblygu Parc Ynni Gwyrdd Aberddawan Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi sefydlu Bro Morgannwg fel canolfan ranbarthol ar gyfer arloesi ym maes ynni adnewyddadwy a gwyrdd a gweithgynhyrchu di-garbon.* Mae'r holl ddatblygiadau ym Mro Morgannwg bellach wedi eu hadeiladu i'r safonau uchaf o ran dylunio a pherfformiad amgylcheddol, gan ymgorffori mesurau i liniaru ac addasu i effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.

*Mae Bro Morgannwg yn lle iach a chynhwysol i bawb, gyda mynediad teg at wasanaethau a chyfleusterau, yn gorfforol a digidol. Mae'r trigolion yn falch o lle maen nhw'n byw a gallant gael y cartrefi sydd eu hangen arnynt. Mae twf tai wedi darparu cartrefi sy'n darparu ar gyfer pawb, gan gynnwys cartrefi fforddiadwy a thai pobl hŷn; gan gyfrannu tuag at gymunedau amrywiol a chydlynus lle gall trigolion gynnal eu hannibyniaeth.*

*Drwy greu lleoedd, mae lleoedd a gofodau yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gymdeithasol gynhwysol. Mae datblygiadau yn parchu cymeriad lleol ac mae’r ymdeimlad o le yn cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at iechyd a lles. Cyflawnwyd gwelliannau cadarnhaol wrth leihau bwlch yr anghyfartaledd o ran ansawdd bywyd a chanlyniadau iechyd i drigolion sy'n byw yn yr ardaloedd â’r amddifadedd mwyaf drwy well mynediad at gyflogaeth, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau a buddsoddiad yn yr amgylchedd adeiledig.*

*Mae'r Fro yn mwynhau rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas cysylltiedig, aml-swyddogaethol a hygyrch, gan ddarparu ystod o fanteision hamdden ac iechyd gwell o fewn a rhwng trefi, pentrefi ac yng nghefn gwlad. Mae mwy o drigolion yn cymryd rhan mewn ffyrdd o fyw iach a llesol. Mae buddsoddi mewn seilwaith gwyrdd wedi cynhyrchu budd bioamrywiaeth net gyda chreu cynefinoedd newydd, gwell cysylltedd a Phlannu yn darparu storio carbon a chyfrannu at wytnwch ac addasu yn wyneb Newid yn yr Hinsawdd.*
*Mae'r Fro'n parhau i fod yn rhywle lle mae diwylliant ac amrywiaeth pobl, a rhinweddau unigryw ei chymunedau, yn cael eu cydnabod a'u gwarchod.*

*Mae creu lleoedd yn cefnogi ymdeimlad cryf o gymuned ac wedi cyfrannu at wella ansawdd bywyd pob cenhedlaeth. Mae trigolion ac ymwelwyr yn gallu cyrchu cyfleusterau lleol a lleoedd cynhwysol i gyfarfod a chwarae ynddynt. Bydd datblygiadau newydd yn parchu cymeriad lleol y Fro, gan warchod ei hamgylchedd hanesyddol, naturiol ac adeiledig eithriadol. Mae treftadaeth hanesyddol bwysig y Fro yn parhau i gael ei gwarchod a'i gwella.*

*Mae Rhaglen Twf ac Adfywio'r Cyngor ar gyfer y Barri wedi llwyddo i drawsnewid y dref. Mae'r dref a chanolfannau manwerthu lleol yn lleoedd bywiog, tra bod y marina newydd yng Nglannau'r Barri ac adfywio Ynys y Barri yn cynnig twristiaeth gydol y flwyddyn. Mae amrywiaeth o gynlluniau ardaloedd cyhoeddus wedi gwella'r amgylchedd adeiledig a naturiol drwy'r dref.*

*Mae trefi'r Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth yn ganolfannau gwasanaeth cynaliadwy bywiog a deniadol sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau a chyfleusterau i'w trigolion a'r rhai sy'n byw mewn pentrefi cyfagos. Mae canol trefi wedi addasu i adlewyrchu newidiadau mewn ymddygiad manwerthu a bellach yn gweithredu fel canolfannau aml-ddefnydd sy'n darparu mannau manwerthu, hamdden, hamddena, cymunedol a chyflogaeth.*

*Mae twf o fewn aneddiadau gwledig wedi darparu ar gyfer anghenion trigolion ac yn cefnogi cymunedau aml-genhedlaeth cytbwys sy'n cyfrannu at fywiogrwydd yr ardal wledig. Trwy fuddsoddi mewn teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltedd band eang mae'r fro wledig yn gefn gwlad byw a gweithiol sy'n cefnogi rhwydwaith o gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus.*

*Mae cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru yn golygu bod Bro Morgannwg bellach wedi'i chysylltu'n dda gan system drafnidiaeth integredig sy'n cefnogi twf economaidd. Mae gan gymunedau fynediad at gysylltedd trafnidiaeth gwell yn lleol ac yn rhanbarthol, gyda thwf economaidd a thai yn cael ei ddarparu'n gynaliadwy er budd cymunedau. Mae rhwydweithiau teithio llesol gwell o fewn a rhwng trefi a phentrefi wedi creu cymdogaethau bywiog a hygyrch i drigolion sy'dd wedi eu cysylltu â'u haneddiadau gwledig cyfagos.*

*Mae gan y Fro economi leol ffyniannus gyda sylfaen fusnes gytbwys ac amrywiol. Mae twf cyflogaeth newydd ym Mharthau Menter Bro Tathan a Maes Awyr Caerdydd wedi denu buddsoddiad mewnol gan fusnesau sy'n seiliedig ar wybodaeth ac uwch-dechnoleg, gan greu cyflogaeth a hyfforddiant o ansawdd uchel. Mae gan y Fro weithlu medrus sy’n gallu ymaddasu. Mae darparu safleoedd cyflogaeth strategol a lleol, ochr yn ochr â chyfleoedd i fusnesau gwledig, arallgyfeirio amaethyddol a chysylltedd digidol, wedi galluogi busnesau i dyfu a ffynnu ac mae wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cymudo allan o’r ardal.*

*Drwy fuddsoddi'n gryf mewn twristiaeth, hamdden, hamddena ac isadeiledd gwyrdd, mae Bro Morgannwg yn gyrchfan ymwelwyr gydol y flwyddyn. Mae rheoli sensitif a chynaliadwy ar ei hasedau adeiledig a naturiol gan gynnwys yr Arfordir Treftadaeth, Parciau Gwlad, traethau, cefn gwlad a threftadaeth hanesyddol wedi galluogi twristiaeth i ffynnu. Mae'r Fro yn denu ymwelwyr o bell ac mae twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth leol, buddsoddiad, ac yn hwylusydd arallgyfeirio gwledig.*

## 5. AMCANION Y CDLIN

**5.1.** Mae Amcanion y CDLIN yn amlinellu sut bydd y Cynllun Newydd yn mynd i'r afael â'r prif Faterion sy'n wynebu Bro Morgannwg, er mwyn cyflawni'r Weledigaeth. Mae'r Amcanion hyn nid yn unig yn adlewyrchu polisi Cynllunio Cenedlaethol, ond hefyd dyheadau'r Cyngor a rhanddeiliaid allweddol ac yn dangos sut y gall y system Cynllunio defnydd tir fynd i'r afael â'r Materion a nodwyd.

**5.2.** Ar hyn o bryd, caiff Gweledigaeth y CDLI mabwysiedig ei chyflawni drwy 10 Amcan. Y rhain yw:

1. ***Cynnal cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg a'u datblygu ymhellach, gan ddarparu cyfleoedd byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb.***

2. ***Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith a lliniaru effeithiau andwyol Newid yn yr Hinsawdd.***

3. ***Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i fodloni eu hanghenion bob dydd a chynnig mwy o ffurfiau cynaliadwy ar drafnidiaeth iddynt.***

4. ***Diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol Bro Morgannwg.***

5. ***Cynnal, gwella a hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ym Mro Morgannwg.***

6. ***Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd ac apêl canolfannau siopa tref, ardal, lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg.***

7. ***Rhoi cyfle i bobl ym Mro Morgannwg ddiwallu eu hanghenion tai.***

8. ***Meithrin datblygiad economi leol amrywiol a chynaliadwy sy'n bodloni anghenion Bro Morgannwg a rhanbarth ehangach de-ddwyrain Cymru.***

9. ***Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda darlun positif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i wella profiad ymwelwyr a phreswylwyr.***

10. ***Sicrhau bod datblygiad ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir mewn modd effeithiol ac effeithlon a hyrwyddo defnydd a rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.***

**5.3.** Mae'n hanfodol bod Amcanion y Cyngor ar gyfer CDLIN Bro Morgannwg hefyd yn ategu nodau ac Amcanion Dyfodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11. Dangosir y berthynas rhwng Amcanion y CDLIN a'r polisi Cynllunio cenedlaethol yn Nhablau 1 – 3. Yn ogystal, mae Amcanion y CDLIN wedi'u diweddaru yn unol â'r canllawiau canlynol a amlinellir yn Adran 5 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (LlCD) Rhifyn 3 (2020):

*“ 5.12. Dylid datblygu Amcanion y Cynllun o'r prif faterion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol a nodwyd yn yr ardal, yn rhai y gellir eu cyflawni ac sy’n ychwanegu manylion at y weledigaeth. Wrth eu darllen ar y cyd, dylai'r weledigaeth a'r Amcanion osod cyd-destun clir ar gyfer strategaeth y CDLl. Dylai'r Amcanion lifo drwy'r Cynllun a bod wedi eu cysylltu â'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol, polisïau’r CDLl a’r fframwaith monitro. Yn dilyn cyflwyno' Deddf Llesiant 2015, rhaid i Amcanion y CDLl gyd-fynd â'r nodau a'r Amcanion llesiant. Felly, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos aliniad pob Amcan CDLl yn erbyn y nodau a'r Amcanion llesiant."*

| | |
|---|---|
| ✓ | Datganiadau â ffocws sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prif faterion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd, a diwylliannol a nodwyd yn yr ardal 97 |
| ✓ | Dangos cyflawni'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol |
| ✓ | Alinio gyda nodau llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| ✓ | Cysylltu â'r weledigaeth, polisïau’r CDLl a'r fframwaith monitro |

**Ffynhonnell:** Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3 (Mawrth 2020)

**5.4.** Nod yr Amcanion hyn yw cynnig mwy o fanylion am sut y gall y system Gynllunio helpu i gyflawni'r Weledigaeth ac ymateb i'r materion allweddol a amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Y deg Amcan a fydd yn ganolog i'r CDLIN yw:

## Amcanion y CDLIN

### Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd

- Sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol, hyrwyddo technegau dylunio ac adeiladu cynaliadwy o fewn datblygiadau newydd. Cefnogi mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys cynlluniau gwresogi ardal a rhai wedi'u harwain gan y gymuned.
- Annog datblygiad sy'n lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog pobl i arfer teithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer.
- Sicrhau bod yr holl ddatblygiadau a seilwaith newydd yn wydn o ran effeithiau yn deillio o Newid yn yr Hinsawdd yn y dyfodol. Cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd sy'n dueddol o wynebu risg llifogydd ac ymgorffori mesurau rheoli dŵr, a mesurau gwella bioamrywiaeth ac addasu.

### Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant

- Sicrhau bod pob man yn cynnig amgylcheddau cynhwysol a hygyrch ar gyfer pob oedran sy'n hwyluso rhyngweithio â natur a phobl eraill, a mynediad at gyfleusterau gofal iechyd angenrheidiol. Galluogi preswylwyr i gymryd rhan mewn ffyrdd o fyw actif, drwy ddarparu mynediad cyfleus i fannau agored a llwybrau teithio llesol ar gyfer hamdden, hamddena a gwaith.
- Galluogi darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant ac adfywio lleol sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol.

### Amcan 3 - Cartrefi i Bawb

- Sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn darparu tai o safon uchel sy'n cynnwys y cymysgedd, y ddeiliadaeth a'r math o gartrefi cywir sy'n ymateb i anghenion newidiol poblogaeth y Fro. Mae hyn yn cynnwys cartrefi sy'n fforddiadwy, hygyrch ac addasadwy i bobl o bob oed a sy'n mynd i'r afael ag anghenion llety hysbys holl gymunedau'r Fro drwy bob cyfnod o'u bywydau.

### Amcan 4 - Creu Lleoedd

- Drwy greu lleoedd, sicrhau y bydd y pob datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at greu ymdeimlad o le. Bydd yr holl ddatblygiadau newydd wedi'u lleoli'n briodol ac yn cyfrannu tuag at greu lleoedd llesol, diogel, a hygyrch sy'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau. Bydd cymeriad y cymunedau presennol yn cael eu diogelu a'u gwella drwy ddatblygu lleoedd sy'n parchu arbenigrwydd lleol a'u lleoliad presennol.

- Hwyluso darpariaeth seilwaith cymunedol hygyrch sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y gymuned, gan gynnwys iechyd o ansawdd uchel, addysg, hyfforddiant, a chyfleusterau a mannau cymunedol diwylliannol, cymdeithasol a hamdden.

### Amcan 5 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

- Sicrhau bod pob datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ddatblygu rhwydwaith o seilwaith gwyrdd. Rhaid i'r datblygiadau hefyd ddiogelu cynefinoedd naturiol ac ansawdd y pridd a chynorthwyo i atal yr argyfwng natur drwy ddarparu budd bioamrywiaeth net lleol.

- Blaenoriaethu tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiadau newydd, gan gyfeirio datblygiad i ffwrdd o ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth natur a diogelu'r amgylchedd naturiol sensitif rhag datblygiad amhriodol.

### Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth

- Cydnabod gwerth treftadaeth adeiledig y Fro drwy wreiddio creu lleoedd yn y broses Gynllunio, er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu yn amddiffyn amgylchedd adeiledig hanesyddol y Fro rhag newidiadau niweidiol. Sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwarchod a gwella rhinweddau deniadol asedau hanesyddol y Fro, yn ymateb yn briodol i'r cyd-destun unigryw lleol a sicrhau safonau dylunio uchel.

- Cynnal a gwella cyfleusterau diwylliannol y Fro, a lle bo'n briodol sicrhau cyfleoedd ar gyfer cyfoethogi diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg, o fewn datblygiadau newydd, yn yr amgylchfyd cyhoeddus a thrwy ddarparu gofodau ac adeiladau cymunedol aml-bwrpas.

### Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig

- Hwyluso adfywiad ffisegol, economaidd, a chymdeithasol, gan adlewyrchu anghenion a dyheadau cymunedau lleol, drwy ddarparu cartrefi newydd, cyflogaeth, a chysylltedd trafnidiaeth gwell.

- Galluogi arallgyfeirio o ran defnydd o fewn canolfannau masnachol a gwasanaeth lleol i gynnig cymysgedd o ddefnyddiau manwerthu, hamdden, masnachol a chymunedol. Gwella teithio llesol a chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus o fewn a rhwng trefi ac aneddiadau cyfagos.

- Darparu ar gyfer cymunedau gwledig hanfodol a bywiog tra'n gwarchod cefn gwlad trwy sicrhau twf mewn lleoliadau cynaliadwy, sy'n gysylltiedig â'r Hierarchaeth Aneddiadau, ochr yn ochr â darparu seilwaith ategol.

### Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy

- Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at leoliadau sy'n hygyrch neu'n gallu bod yn hygyrch drwy ddewis o ddulliau teithio, gan gynnwys cerdded, beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cynyddu'r cyfleoedd i breswylwyr deithio'n llesol, drwy ymgorffori cyfleusterau teithio llesol ac annog newid moddol tuag at fwy o ddefnydd ar drafnidiaeth gynaliadwy.

- Dod o hyd i gyfleoedd i wneud y mwyaf o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth leol sy'n deillio o Fetro De-ddwyrain Cymru er mwyn: cryfhau cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yn lleol ac yn rhanbarthol, darparu rheolaeth dros y rhwydwaith priffyrdd, a chynnig dewisiadau diogel ac effeithiol ar gyfer cerdded a beicio ochr yn ochr â gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus well.

### Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd

- Darparu ar gyfer amrywiaeth a dewis o dir cyflogaeth o ansawdd da a chefnogi seilwaith i alluogi busnesau lleol i ehangu. Creu cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad a galluogi economi'r Fro i ymateb i newidiadau mewn patrymau gwaith a chyflogaeth yn y dyfodol.

- Hyrwyddo Parth Menter Bro Tathan, Maes Awyr Caerdydd ac Aberddawan, fel meysydd cyflogaeth strategol pwysig, gan alluogi darparu swyddi medrus o safon uchel, hyfforddiant a chyfleoedd addysg.

- Cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig, gan alluogi cyfleoedd i ddarparu safleoedd cyflogaeth a busnes o fewn aneddiadau gwledig a hwyluso'r twf mewn mentrau gwledig.

- Hwyluso twf twristiaeth gynaliadwy, gan gydnabod ei gyfraniad at les economaidd y Fro. Galluogi gwell hamdden, hamddena, gweithgarwch economaidd, arallgyfeirio, a datblygu cynaliadwy.

### Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy

- Creu cyrchfan dwristiaeth ddeniadol gyda delwedd bositif i Fro Morgannwg, gan annog datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o safon i gyfoethogi profiad ymwelwyr a phreswylwyr.

**5.5.** Mae Tabl 1 yn dangos sut mae'r Amcanion yn cyfateb â'r themâu allweddol a archwilir yn hwn ac yn tynnu sylw at y ffaith bod gorgyffwrdd rhwng pob Amcan CDLIN, a'r gwahanol themâu a nodwyd. Yn ogystal, mae Tablau 2 a 3 yn dangos sut mae'r themâu a'r Amcanion hyn yn adlewyrchu elfennau allweddol o bolisi a chanllawiau Cynllunio cenedlaethol. Yn y cyfamser, mae Tabl 4 yn amlinellu'r cysondeb rhwng Amcanion y CDLIN, Amcanion Cynllun Llesiant BGC Bro Morgannwg ac Amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

**_Tabl 1 – Cymharu Amcanion y CDLIN yn erbyn Themâu Allweddol:_**

| Themâu Allweddol | Amcanion y CDLIN | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant | Amcan 3 – Cartrefi i Bawb | Amcan 4 - Creu Lleoedd | Amcan 5 – Gwella'r Amgylchedd Naturiol | Amcan 6 – Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth | Amcan 7 – Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig | Amcan 8 – Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy | Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd | Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy |
| Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | | | | | | | | | | |
| Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant | | | | | | | | | | |
| Cartrefi i Bawb | | | | | | | | | | |
| Creu Lleoedd | | | | | | | | | | |
| Gwella'r Amgylchedd Naturiol | | | | | | | | | | |
| Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth | | | | | | | | | | |
| Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig | | | | | | | | | | |
| Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy | | | | | | | | | | |
| Adeiladu Economi Lewyrchus a Gwyrdd | | | | | | | | | | |

**Tabl 2 - Cymharu Amcanion Drafft y CDLIN yn erbyn Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:**




| | Nodau Llesiant |
|---|---|
| Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | 1 2 7 |
| Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant | 2 3 |
| Amcan 3 - Cartrefi i Bawb | 4 5 |
| Amcan 4 - Creu Lleoedd | 1 4 5 |
| Amcan 5 - Gwella'r Amgylchedd Naturiol | 1 2 7 |
| Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth | 5 6 |
| Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig | 1 3 4 5 6 |
| Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy | 2 3 5 7 |
| Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd | 1 2 7 |
| Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy | 1 2 6 7 |

***Tabl 3 – Cymharu Amcanion y CDLIN yn erbyn yr Egwyddorion Cynllunio Allweddol sydd yn Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 11:***

| Amcanion y CDLIN | PCC 11 - Egwyddorion Cynllunio Allweddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy | Gwneud y defnydd gorau o adnoddau | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach | Creu a chynnal cymunedau | Sicrhau'r diogelwch amgylcheddol mwyaf posibl a chyfyngu ar effaith amgylcheddol |
| Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd | | | | | |
| Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant | | | | | |
| Amcan 3 - Cartrefi i Bawb | | | | | |
| Amcan 4 - Creu Lleoedd | | | | | |
| Amcan 5 - Gwella'r Amgylchedd Naturiol | | | | | |
| Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth | | | | | |
| Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig | | | | | |
| Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy | | | | | |
| Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd | | | | | |
| Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy | | | | | |

## *Tabl 4 - Cymharu Amcanion y CDLIN yn erbyn Cynllun Llesiant y BGC ac Amcanion Cynllun Corfforaethol y Cyngor:*

| Amcanion y CDLIN | Amcanion Cynllun Llesiant y BGC | | | Amcanion Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bro sy’ n fwy cydnerth gwyrdd | Bro sy’ n fwy iach ac egnïol | RBro fwy cyfartal a chysylltiedig | Gweithio gyda, a thros ein cymunedau | Cefnogi dysgu, cyflogaeth, a thwf economaidd cynaliadwy | Cefnogi pobl gartref ac yn eu cymuned | Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd |
| **Amcan 1 - Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd** | | | | | | | |
| **Amcan 2 - Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant** | | | | | | | |
| **Amcan 3 - Cartrefi i Bawb** | | | | | | | |
| **Amcan 4 – Creu Lleoedd** | | | | | | | |
| **Amcan 5 - Gwella'r Amgylchedd Naturiol** | | | | | | | |
| **Amcan 6 - Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth** | | | | | | | |
| **Amcan 7 - Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog, a Chysylltiedig** | | | | | | | |
| **Amcan 8 - Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy** | | | | | | | |
| **Amcan 9 - Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd** | | | | | | | |
| **Amcan 10 – Hyrwyddo Twristiaeth Gynaliadwy** | | | | | | | |

## 6. ATODIAD

### *6.1. Atodiad 1: Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n wynebu Bro Morgannwg?*

*Thema 1 – Lliniaru ac Addasu i Newid yn yr Hinsawdd*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Ynni adnewyddadwy a chynhyrchu gwres** | • Er mwyn lliniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd, rhaid cwtogi ar allyriadau carbon datblygiadau sy'n cynhyrchu gwres ac ynni o danwydd ffosil. Er mwyn caniatáu hyn ac i sicrhau bod y galw'n cael ei fodloni, rhaid datblygu ynni a gwres sy'n defnyddio ffynonellau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol. | • Bydd Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cael ei gynnal i ddarparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer gofynion gwres ac ynni adnewyddadwy ym Mro Morgannwg. Gallai'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy hefyd ystyried y potensial ar gyfer rhwydweithiau gwres ardal mewn lleoliadau priodol.<br>• Bydd polisïau'r CDLIN yn cael eu dylanwadu gan ganfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy a dylai hwyluso datblygiadau ynni a gwres adnewyddadwy ar raddfa fach ac ar raddfa fawr lle bo hynny'n briodol.<br>• Gall y CDLLN gynnwys polisi sy'n hyrwyddo micro-gynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| **Allyriadau o Drafnidiaeth** | • Mae maint y traffig ym Mro Morgannwg wedi codi'n gyson gan gyrraedd uchafbwynt yn 2019, cyn pandemig Covid 19.[2] Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon o drafnidiaeth. | • Gall y CDLIN geisio dyrannu safleoedd yn y lleoliadau tramwy eu natur mwyaf cynaliadwy. Trwy uwch-gynllunio, gall sicrhau bod safleoedd yn cael eu cysylltu drwy gyfrwng teithio llesol â thrafnidiaeth gyhoeddus. |

[2] Asesiad Llesiant Bro Morgannwg - Adroddiad ar yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth (Mai 2022)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | | • Bydd y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio osgoi datblygiadau mewn lleoliadau llai cynaliadwy.<br>• Annog newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus?<br>• Hwyluso'r gwaith o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan o fewn datblygiadau newydd. |
| **Llifogydd ac Erydu Arfordirol** | • Lleoliad arfordirol yw Bro Morgannwg, ac mae sawl cwrs dŵr yn ei groesi. Oherwydd goblygiadau Newid yn yr Hinsawdd, mae achosion o lifogydd a thywydd eithafol sy'n cyflymu erydiad arfordirol yn cynyddu mewn amlder, a fydd yn arwain at gynnydd mewn difrod a tharfu. | • Bydd yn rhaid i'r CDLIN ystyried peryglon llifogydd ac erydu arfordirol ac ymateb yn briodol iddynt. Bydd y Cynllun newydd yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o liniaru ac addasu i effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol.<br>• Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol wedi'i gynnal, gyda'r pwrpas o lywio datblygiad o ran rheoli perygl llifogydd o fewn y CDLIN. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ddeall perygl llifogydd o bob ffynhonnell ac adnabod hd a lled a difrifoldeb perygl llifogydd ledled yr ardal leol. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor addasu i effeithiau llifogydd wrth ddyrannu safleoedd yn y CDLIN ac i ddrafftio polisïau i asesu datblygiadau annisgwyl.<br>• Bydd safleoedd a ddyrannwyd o fewn y CDLNI wedi'u lleoli i ffwrdd o ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd. Dylai polisi hefyd gefnogi gweithredu systemau draenio cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd, sy'n gallu lliniaru effeithiau llifogydd. |

*Thema 2 – Gwella Iechyd Meddyliol a Chorfforol a Llesiant*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Hyrwyddo Ymddygiadau Iach** | • Yn gyffredinol, mae oedolion ym Mro Morgannwg yn cofnodi eu bod yn ymgymryd ag ymddygiadau iach sydd uwch law'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru. Fod bynnag, ceir gwahaniaethau o ran ymgymryd ag ymddygiadau iach rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a mwyaf, gyda'r rhai yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llai tebygol o arddel ymddygiadau iach ac yn fwyaf tebygol o brofi canlyniadau iechyd gwael[3]. Mae ymddygiadau iach yn cynnwys gweithgarwch corfforol, gwneud dewisiadau bwyd iach a maethlon a pheidio ag ysmygu neu yfed mwy na'r canllawiau. | • Mae amgylchedd adeiledig a naturiol Bro Morgannwg yn cael effaith ar ddewisiadau pobl ac yn eu bywydau bob dydd gan gynnwys teithio a hamdden. Bydd y CDLIN felly'n chwarae ei rôl wrth siapio datblygiadau sy'n annog ymddygiadau iach fel teithio llesol, gweithgaredd corfforol, mwynhau natur a mannau gwyrdd, a chymdeithasu. Bydd polisi iechyd a lles wedi ei seilio ar ddefnydd tir yn mynd i'r afael â'r Materion hyn.<br>• Bydd y CDLIN yn hwyluso cyflwyno llwybrau teithio llesol newydd ac yn ffafrio datblygiadau sy'n annog dewisiadau teithio llesol.<br>• Bydd y Cynllun yn diogelu mannau gwyrdd agored sy'n bodoli eisoes a bydd gofyn i ddatblygiadau preswyl newydd ddarparu mannau agored cyhoeddus newydd. Bydd tai newydd wedi'u lleoli lle mae mannau gwyrdd a llwybrau teithio llesol yn hygyrch. |

3 Asesiad Llesiant Bro Morgannwg - Adroddiad Iechyd a Chymunedau (Mai 2022)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Amgylcheddau Diogel ac Iach** | • Mae amlygiad i lygredd aer niweidiol wedi'i gysylltu â chanlyniadau iechyd negyddol, gyda phlant bedair gwaith yn fwy tebygol o fod â gweithrediad ysgyfaint sy'n sylweddol is fel oedolion os ydynt yn byw mewn ardaloedd llygredig iawn. Mae llawer o lygredd aer yn gysylltiedig â thraffig cymudo. Mae cyfraddau uwch o'r llygrydd niweidiol Nitrogen Deuocsid (NO2) i'w ganfod mewn ardaloedd mwy difreintiedig<br>• O'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, mae Bro Morgannwg yn cofnodi niferoedd is o ran cyfanswm troseddau. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cydberthynas hefyd rhwng profiadau o droseddu a'r ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg a fesurir fel y rhai â'r amddifadedd mwyaf yn ôl Maes Diogelwch Cymunedol MALIC 2019[3]. | • Bydd y CDLIN yn meithrin amgylcheddau iach drwy gyfyngu ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â llygryddion niweidiol ac yn ffafrio cynigion sy'n cyfrannu at well ansawdd aer.<br>• Bydd gwell ansawdd aer yn atal canlyniadau iechyd negyddol cysylltiedig, gellir cyflawni hyn drwy leihau tagfeydd traffig a hyrwyddo datblygiadau allyriadau isel. Gall y Cynllun gyfrannu at lai o dagfeydd traffig drwy hwyluso trafnidiaeth gyhoeddus a gwelliannau teithio llesol, gan sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cynllunio o amgylch trafnidiaeth gynaliadwy yn hytrach na cheir.<br>• Bydd y CDLIN yn cydnabod pwysigrwydd gwarchod ardaloedd tawel ar gyfer iechyd meddwl. Bydd darparu a gwarchod ardaloedd tawel sy'n darparu mannau heddychlon ac ymlaciol mewn amgylcheddau swnllyd yn hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol.<br>• Bydd y Cynllun yn gofyn i ddatblygiadau yn y dyfodol ystyried atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn creu amgylcheddau diogel i bobl fyw, gweithio a mwynhau ynddynt. Gall teimlo'n ddiogel mewn cymuned gael effaith uniongyrchol ar lesiant personol a chymunedol. Bydd paratoi'r Cynllun yn |

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | | cynnwys ymgysylltu â Diogelu drwy Ddylunio Heddlu De Cymru. |
| **Iechyd Meddwl a Llesiant** | • Mae astudiaethau'n dangos bod yna bobl ym Mro Morgannwg yn profi iechyd meddwl gwael, yn arbennig yn sgil ynysigrwydd yn ystod y pandemig, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig[3].<br>• Datgelodd yr Arolwg Cenedlaethol fod 40% o'r ymatebwyr wedi dweud bod eu lles emosiynol a meddyliol yn 'dda' a 15% bod eu lles emosiynol a meddyliol yn 'wael'. Roedd y canlyniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu ar draws y gwahanol ardaloedd cymunedol a'r grwpiau oedran[3].<br>• Yn 2018/19 sgoriodd lles meddyliol ymhlith oedolion ym Mro Morgannwg 50 ar raddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin. Roedd hyn gyda'r isaf yng Nghymru, ac yn is na'r Cyfartaledd Cenedlaethol, sef 51.4. Mae sgôr uwch ar y raddfa yn dynodi gwell lles meddyliol[3]. | • Bydd y CDLIN yn hyrwyddo iechyd meddwl a llesiant drwy greu llefydd deniadol o ansawdd uchel, gyda hunaniaeth, ac ymdeimlad o le a chymuned. Lle bo'n briodol, dylai cynigion datblygu gynnwys gofodau sy'n annog integreiddio cymdeithasol a chydlyniant cymunedol, megis mannau agored mewn datblygiadau preswyl a gwelliannau i ganol trefi.<br>• Bydd mannau gwyrdd gwerthfawr, bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd yn cael eu diogelu a'u gwella lle bo hynny'n briodol gan y CDLIN. Bydd hyn yn caniatáu i bobl gysylltu â'r amgylchedd naturiol, gan annog gweithgarwch corfforol a chyfrannu at well iechyd meddwl. |
| **Anghenion Iechyd Penodol** | • Mae'r boblogaeth ym Mro Morgannwg yn heneiddio. Nid yw llawer o bobl hŷn yn y Fro yn byw mewn iechyd da, gyda bron i 50% o bobl hŷn heb fod yn rhydd o salwch hirdymor cyfyngol[3]. | • Bydd y CDLIN yn gofyn i gynigion datblygu ystyried hygyrchedd i bawb gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion penodol megis anableddau corfforol neu nam ar y synhwyrau a dangos sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.<br>• Bydd y Cynllun ei hun yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n cynnwys Asesiad Effaith Iechyd. |

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
| --- | --- | --- |
| | | • Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o baratoi'r Cynllun, er mwyn sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu hystyried. |
| **Gwasanaethau Iechyd** | • Dangosodd Asesiad Llesiant BGC Bro Morgannwg bod 81.9% o bobl ym Mro Morgannwg yn 2018/19, wedi ateb eu bod yn fodlon ar eu gallu i gyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt[3].<br>• Mae'r pandemig wedi amlygu pwysigrwydd gallu cyrchu gwasanaethau yn gorfforol ac yn ddigidol wrth i ddefnydd ar wasanaethau wyneb yn wyneb ostwng[3].<br>• Mae'r gallu i gyrchu gwasanaethau yn y Fro Orllewinol yn waeth fel y'i mesurir drwy Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 Maes Mynediad i Wasanaethau[3]. | • Bydd y CDLIN yn ymdrechu i gynnal a gwella hygyrchedd da i wasanaethau iechyd yn gorfforol ac yn ddigidol er mwyn lleihau anghydraddoldebau ac amddifadedd.<br>• Bydd y Cynllun yn cyfrannu tuag at hygyrchedd corfforol drwy gefnogi seilwaith trafnidiaeth, gan ganiatáu datblygiadau gofal iechyd mewn lleoliadau hygyrch sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Gellid gwella hygyrchedd digidol trwy hwyluso mynediad i bob eiddo yn y Fro i seilwaith digidol a chysylltiadau Wi-Fi sydd â digon o gyflymder. |

*Thema 3 – Cartrefi i Bawb*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Twf Poblogaeth** | • Yng Nghyfrifiad 2021, poblogaeth Bro Morgannwg oedd 131,800, cynnydd o 4.3% ers Cyfrifiad 2011[4].<br>• O'r holl awdurdodau unedol ledled Cymru, rhwng 2001 a 2020, Bro Morgannwg sydd wedi gweld y pedwerydd cyfradd twf blynyddol cyfartalog uchaf yn ei phoblogaeth, sef 0.7%, dim ond Gasnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr, a Chaerdydd sydd yn uwch na hynny. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaleddau rhanbarthol (0.6%) a chenedlaethol (0.5%)[4].<br>• Bu'r twf mwyaf yn y boblogaeth (2001–2020) yn y grŵp oedran 65–79, gyda thwf yn cyflymu yn 2006 ac eto yn 2011, gan arwain at gynnydd cyffredinol o bron i 50% (Ffigur 5). Mae'r grŵp oedran 80+ hefyd wedi gweld twf sylweddol, gan gynyddu 38% dros y cyfnod hanesyddol. Mae maint y boblogaeth oedran gweithio (15–64) wedi cynyddu 10%, tra bod y boblogaeth rhwng 0-4 wedi gostwng 2%[4]. Mae poblogaeth yn heneiddio a welwyd ym Mro Morgannwg yn nodwedd anochel o'r newid yn y boblogaeth ledled y DU, wrth i garfannau geni mwy y cyfnod wedi'r rhyfel symud i'r oedrannau ymddeol. | • Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod lefel y twf yn cydbwyso'r ddarpariaeth dai a'r twf cyflogaeth gyda'r newidiadau demograffig. |
| **Tai Fforddiadwy** | • Mae Asesiad o Farchnad Dai Leol (AFDL) Bro Morgannwg yn ystyried anghenion tai ar lefel ward ar draws yr awdurdod. Cyhoeddwyd yr AFDL | • Bydd y CDLIN yn ceisio diwallu anghenion ei holl gymunedau drwy ddarparu ystod o fathau o dai a deiliadaethau |

[4] Sut Newidiodd yn y Boblogaeth ym Mro Morgannwg: Cyfrifiad 2021, ONS, Mehefin 2022

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | diweddaraf (2021)[5] yn 2022 ac mae'n nodi angen blynyddol o 1,205 o anheddau fforddiadwy i'w darparu i gwrdd â'r ôl-groniad presennol a'r galw arfaethedig hyd at 2026, gan ddangos bod galw mawr am lety fforddiadwy o fewn y Fro yn parhau.<br>• Mae'r galw uchaf am gartrefi fforddiadwy o fewn yr adran rhent cymdeithasol (915 o gartrefi'r flwyddyn) ac yna rhent canolradd (211 o gartrefi) yna perchnogaeth tŷ cost isel (79 o gartrefi). Yn ofodol, mae'r angen mwyaf am dai fforddiadwy i'w weld gyda'r Barri a Phenarth er bod yr AFDL[5] yn nodi mai'r hyn sydd fwyaf amlwg yw bod pob rhan o'r Fro yn dangos diffyg tai cymdeithasol. | • Bydd y CDLIN yn cynnwys polisïau i sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy i gynorthwyo i gwrdd â'r angen am dai fforddiadwy a nodwyd.<br>• Bydd y CDLIN yn gosod targed o ran y nifer o dai fforddiadwy i'w darparu gan y system gynllunio dros gyfnod y Cynllun.<br>• Bydd y CDLIN yn cefnogi darparu tai fforddiadwy ar 'safleoedd eithriad gwledig' gyda'r bwriad penodol o ddiwallu angen lleol a nodwyd am gartrefi fforddiadwy yn y pentrefi llai. |
| **Diwallu anghenion tai yn y dyfodol ar gyfer poblogaeth sy'n newid.** | • Mae gwybodaeth ddiweddaraf cyfrifiad 2021 ar gyfer Bro Morgannwg yn dangos ers 2011, bod Bro Morgannwg wedi gweld cynnydd o 24.9% o bobl 65 oed a throsodd (2[il] gynnydd mwyaf i awdurdod yng Nghymru). Tra ar yr un pryd, mae nifer y bobl rhwng 15 a 64 oed wedi gostwng 1.5%, a bu cynnydd o 4.3% mewn plant dan 15 oed[4].<br>• Mae AFDL y Cyngor yn dangos bod galw mawr am gartrefi llai o fewn y Fro[5]. | • Bydd yn bwysig i'r CDLIN ystyried darparu cartrefi sydd wedi'u cynllunio i fod yn hygyrch ac sy'n gallu addasu i anghenion sy'n newid dros amser.<br>• Bydd y CDLIN yn ceisio sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn darparu amrywiaeth o fathau o anheddau a meintiau i ddiwallu anghenion lleol a nodwyd. |
| **Llety Sipsiwn a Theithwyr** | • Yn ddiweddar, cwblhaodd y Cyngor ei Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) diweddaraf, sy'n darparu asesiad cadarn o'r angen presennol ac i'r dyfodol am lety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun. Wedi i Lywodraeth Cymru gytuno arno, bydd yr asesiad yn | • Bydd y CDLIN yn nodi safleoedd er mwyn bodloni'r angen am lety Sipsiwn a Theithwyr a nodwyd yn y ALISTh, a bydd yn hwyluso'r gwaith o asesu unrhyw alw annisgwyl yn y dyfodol. |

[5] Asesiad o Farchnad Dai Leol Bro Morgannwg 2021

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | sail ar gyfer darparu safleoedd o fewn Bro Morgannwg yn y dyfodol[6]. | |

[6] Asesiad Angen Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg

## *Thema 4 – Creu Lleoedd*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Cadw hunaniaeth lle** | • Mae Bro Morgannwg yn cynnwys lleoedd sydd â chymeriad a hunaniaeth amrywiol, yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth, yr Arfordir Treftadaeth, pentrefi gwledig a chanol trefi trefol.<br>• Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth manwl ar gyfer pob un o'r 40 Ardal Gadwraeth yn y Fro sy'n cynnwys dadansoddiad llawn o gymeriad lleol ac sy'n rhoi arweiniad ar sut y gellir cadw a gwella hyn[7].<br>• Mae'r Cyngor wedi sefydlu ATAau a Lletemau Glas i gadw hunaniaeth lle, i atal anheddiadau rhag ymgyfuno a gwarchod ardaloedd o arwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol, neu ddiwylliannol[8][9]. | • Bydd y CDLIN yn sicrhau bod mesurau mewn lle i warchod ardaloedd sydd â hunaniaeth lle unigryw.<br>• Bydd y CDLIN yn cefnogi defnydd cymysg a datblygiadau deiliadaeth cymysg o ddwysedd priodol i gefnogi cymunedau amrywiol gydag ardaloedd cyhoeddus bywiog[10].<br>• Bydd polisïau'r CDLIN yn parchu ac yn gwella nodweddion a chyfleoedd unigryw treftadaeth, diwylliant ac iaith y Fro, ynghyd â'i phriodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol[10]. |
| **Ansawdd yr Ardal Gyhoeddus** | • Mae Bro Morgannwg yn cynnwys 29 o barciau a gerddi cyhoeddus, yn ogystal â nifer o fannau chwarae, a theipolegau gofod agored cyhoeddus eraill[11].<br>• Mae ystod eang o gyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r boblogaeth ar gael yn y Fro[12]. | • Bydd y CDLIN yn diogelu mannau agored cyhoeddus gwerthfawr presennol lle bo'n briodol ac yn sicrhau bod mannau cyhoeddus newydd wedi'u cynllunio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel, wedi'u cysylltu'n dda, yn gynhwysol, ac yn meddu ar hunaniaethau unigryw[10]. |

[7] Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth Bro Morgannwg, 2009
[8] Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, 2022 Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg 2021-2036
[9] Papur Cefndir Lletem Las, Tachwedd 2011 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026
[10] Siarter Creu Lleoedd Cymru, Comisiwn Dylunio Cymru, Medi 2020
[11] Papur Cefndir Gofod Agored, Medi 2013 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026
[12] Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol, Medi 2013 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | • Mae mwy o bobl ym Mro Morgannwg yn dweud eu bod yn fodlon ar le maent yn byw na chyfartaledd Cymru. Caiff hyn ei gefnogi gan nifer o fesurau cymunedol a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru[3].<br>• Mae'r Fro yn gyson wedi gweld cynnydd net mewn darpariaeth mannau agored cyhoeddus, yn rhannol drwy gytundebau Adran 106 ynghlwm â datblygiadau newydd[13]. | • Dylai ardaloedd cyhoeddus liniaru a bod yn gallu addasu i effeithiau Newid yn yr Hinsawdd, drwy dirlunio wedi ei integreiddio'n dda, seilwaith gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy[13]. |
| **Mynediad i wasanaethau a chyfleusterau** | • Datgelodd Arfarniad Aneddiadau'r Cyngor mai'r aneddiadau â'r nifer uchaf o wasanaethau allweddol oedd Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr, a'r Bont-faen. Fodd bynnag, mae sawl anheddiad gwledig llai hefyd yn cynnwys ysgol gynradd, sy'n dangos y gallant ddarparu swyddogaeth ategol ar gyfer aneddiadau gwledig llai ger llaw. [14]<br>• Os nad ydynt yn bresennol o fewn yr aneddiadau eu hunain, sgoriwyd aneddiadau yn yr arfarniad hwn ar sail eu pellter cerdded / beicio i ystod penodol o wasanaethau / cyfleusterau allweddol.<br>• Mae'n ymddangos mai gwasanaethau a chyfleusterau cyfyngedig sydd gan 'Bentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig Llai' y Fro a nodwyd yn yr Arfarniad Aneddiadau. Felly, mae trigolion yr aneddiadau hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr amwynderau sydd ar gael o fewn yr aneddiadau ar lefel uwch i ddiwallu eu hanghenion bob dydd. | • Bydd y CDLIN yn ymdrechu i sicrhau bod lleoedd yn gwasanaethu amrywiaeth o ddibenion, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf economaidd a gwella iechyd a llesiant.<br>• Bydd y Cynllun yn sicrhau bod mannau gwaith yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau allweddol mewn mannau sydd yn hygyrch drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus[10].<br>• Bydd y CDLIN yn cefnogi canol trefi fel llefydd bywiog, deniadol a diogel i fyw, gweithio a mwynhau, sy'n cynnig amrywiaeth o ddefnyddiau i ddiwallu anghenion ac awydd yr holl drigolion ac ymwelwyr.<br>• Bydd pob safle a ddyrennir yn y CDLIN wedi cael eu hasesu yn erbyn meini prawf amrywiol, fel y nodir yn y Fethodoleg Safleoedd Ymgeisiol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol a chyfleoedd ar gyfer teithio llesol. |

[13] 4ydd Adroddiad Monitro Blynyddol Ebrill 2021 i Mawrth 2022, Hydref 2022 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026
[14] Papur Cefndir Adolygu Arfarniadau Aneddiadau, 2022 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2021-2036

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | • Nid oes gan lawer o'r 'Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig Llai' fynediad at wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, gwasanaethau cymunedol sylfaenol na chyfleoedd gwaith. Felly, mae'n debygol y bydd dibyniaeth uchel ar ddefnydd o geir preifat i allu cyrchu mwynderau sylfaenol[10].<br>• Mae llwybrau teithio llesol yn gyffredinol yn seiliedig ar brif aneddiadau'r Fro, gan ddarparu opsiynau teithio cynaliadwy i gymunedau i gyrchu canolfannau lleol, gan hwyluso teithiau o ddydd i ddydd a mynd i'r afael a phroblemau penodol.<br>• Mae mynediad i drafnidiaeth yn amrywio ar draws Bro Morgannwg gydag ardaloedd mwy gwledig y Fro Orllewinol wedi'u nodi gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC 2019) fel llefydd sydd â mynediad gwaeth i drafnidiaeth gyhoeddus nag ardaloedd mwy trefol yn y Barri a'r Fro Ddwyreiniol[2].<br>• Yn 2018-19 amcangyfrifwyd bod 11% o bobl ym Mro Morgannwg yn teithio ar feic unwaith y mis; tra bod 25% o bobl yn cerdded bob dydd ar gyfer teithio[2]. | • Mae'n ofynnol i'r CDLIN gynnwys Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG), sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd ochr yn ochr â Chynllun Seilwaith Gwyrdd y Cyngor cyfan. Bydd yr ASG yn rhoi cyfle ar gyfer dull cyfannol o ddarparu rhwydweithiau mannau gwyrdd aml-swyddogaethol, gan helpu'r Cyngor i wireddu potensial cymdeithasol gwelliannau seilwaith gwyrdd yn ogystal â'r manteision i bob math o feysydd, o'r economi i iechyd a llesiant. Bydd yn ceisio sicrhau bod darpariaeth seilwaith gwyrdd yn cael ei flaenoriaethu mewn ardaloedd sy'n cael eu nodi fel rhai sydd â'r gorchudd lleiaf ar hyn o bryd. |

*Thema 5 – Gwella'r Amgylchedd Naturiol*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Diogelu Mwynau** | • Mae Bro Morgannwg yn gyflenwyr mwynau pwysig ac mae'n cyfrannu at gyflenwad cynaliadwy o agregau a'r mwynau nad ydynt yn agregau yn rhanbarth De Cymru.<br>• O 2016 ymlaen, roedd gan Fro Morgannwg ddigon o gronfeydd mwynau wrth gefn i ddiwallu ei anghenion. | • Bydd y CDLIN yn sicrhau bod cyflenwad digonol o agregau a mwynau nad ydynt yn agregau ar gael dros gyfnod y Cynllun ond hefyd wedi'i ddiogelu, i'w ddefnyddio gan genedlaethau'r dyfodol, yn unol â pholisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a thystiolaeth gefndirol.<br>• Fel rhan o'r Broses Asesu Safle Ymgeiswyr, byddwn yn ystyried effaith dyraniadau newydd ar y cyflenwadau mwynau presennol ac ar Ardaloedd Diogelu Mwynau.<br>• Bydd y CDLIN yn ceisio sicrhau bod echdynnu mwynau ond yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd lle gellir dangos bod darpariaethau'r RTS2, PCC, MTAN1 a deddfwriaeth Ewropeaidd a Chenedlaethol perthnasol yn gallu cael eu bodloni. |
| **Llygredd Aer** | • Mae gan y Fro rai o'r lefelau gwaethaf o lygredd aer o waith dyn yng Nghymru[15]. Mae sgoriau allyriadau awyr lawer yn uwch yn ne a dwyrain y sir, gan gynnwys y Barri, lle mae dwysedd poblogaeth, lefelau traffig ac agosrwydd at ddiwydiant trwm yn uwch nag yn ardaloedd mwy gwledig y sir. Mae mynd i'r afael â llygredd aer yn hollbwysig i greu Cymru Iach fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | • Yn gyffredinol, bydd y Cynllun newydd yn ceisio annog a hwyluso newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus?<br>• Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod datblygiadau newydd yn lleihau'r angen i deithio, drwy sicrhau bod datblygiad wedi'i leoli'n briodol mewn lleoliadau cynaliadwy a'u cynllunio i osgoi gorgrynodiadau o lygredd aer. |

[15] StatsCymru: Dangosyddion Ansawdd Aer, yn ôl Awdurdod Lleol (2020)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | | • Bydd angen i ddatblygiadau newydd hefyd gael hygyrchedd da i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy, sy'n lliniaru'r effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol.<br>• Hwyluso'r gwaith o gyflwyno pwyntiau gwefru cerbydau trydan o fewn datblygiadau newydd.<br>• Bydd y CDLI yn annog datblygiadau newydd sydd wedi'u cynllunio i osgoi effeithiau ar ansawdd aer, lleihau sŵn, a diogelu, ymgorffori, a gwella rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.<br>• Dylid hyrwyddo prosiectau ynni adnewyddadwy hefyd, i ddirwyn cynhyrchu ynni o danwydd ffosil i ben yn raddol, sy'n achosi llygredd aer. Bydd yn rhaid cynnal adolygiad o'r dystiolaeth gefndirol ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o'r CDLIN, fel yr amlinellir uchod.<br>• Lle cynigir datblygiad newydd mae'r egwyddor cyfrwng newid yn mynnu y bydd yn rhaid iddo liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau niweidiol y mae'n eu hachosi i ddefnyddiau cyfagos, a fyddai'n cynnwys llygredd aer. |
| **Datblygu ar dir Maes Glas** | • Gall datblygu yn y cefn gwlad agored, i ffwrdd o aneddiadau, arwain at ddatblygiad anghynaladwy sy'n niweidio natur agored Bro Morgannwg gan gloi i mewn y ddibyniaeth ar ddulliau preifat o deithio.<br>• Mae datblygu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg yn lleihau'r tir mwyaf cynhyrchiol o fewn yr awdurdod, gan amharu ar alluoedd cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. | • Mae'r CDLIN yn bwriadu gwarchod lleoliadau cefn gwlad agored a'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg. Defnyddir dull dilyniannol i nodi safleoedd ar gyfer dyrannu, gan ddechrau gyda safleoedd tir llwyd ac yna symud ymlaen i safleoedd maes glas cynaliadwy ar ymyl aneddiadau. Ar safleoedd maes glas lle mae modd cyfiawnhau datblygu, bydd ystyriaeth i'r dosbarthiad tir amaethyddol, er mwyn |

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | | gwerthuso a yw'r tir yn rhy werthfawr i gael ei ddatblygu'n barhaol ai peidio. |
| **Gwastraff** | • Mae angen delio â gwastraff sy'n cael ei greu ym Mro Morgannwg mewn modd cynaliadwy sy'n hwyluso economi gylchol. Ochr yn ochr â phartneriaid rhanbarthol, bellach, mae gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd o Fro Morgannwg yn cael ei drosi i ynni'n bennaf drwy wahanol brosesau, er enghraifft treulio anaerobig[16]. Yn ogystal, yn ystod cyfnod y Cynllun blaenorol mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o gyfleusterau rheoli gwastraff ar raddfa leol. | • Bydd angen i'r CDLIN ystyried adroddiadau monitro cynllunio gwastraff a pholisïau cenedlaethol, yn ogystal â pholisïau rheoli gwastraff sy'n berthnasol yn lleol. Bydd hefyd angen nodi lleoliadau addas ar gyfer darparu seilwaith gwastraff, yn ogystal â meini prawf ar gyfer asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau newydd. |
| **Argyfwng Natur a Bioamrywiaeth** | • Cyhoeddodd Cyngor Bro Morgannwg Argyfwng Natur ym mis Gorffennaf 2021, gan addunedu i roi'r mater wrth galon penderfyniadau'r Cyngor[17]. | • Mae gofyn i'r Cyngor gan y ddeddfwriaeth gynnal a gwella bioamrywiaeth, y mae'n rhaid ei adlewyrchu o fewn y CDLIN. Bydd cyflawni hyn drwy'r Cynllun newydd yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfyngu ar y niwed a achosir i fioamrywiaeth bresennol a gall gynorthwyo i liniaru niwed Newid yn yr Hinsawdd. |
| **Isadeiledd Gwyrdd a'r Tirwedd** | • Mae gofyn i'r Cyngor baratoi Asesiad Seilwaith Gwyrdd i leihau a gwrthdroi darnio cynefinoedd, darparu gwydnwch amgylcheddol, a gwireddu potensial cymdeithasol gwelliannau seilwaith gwyrdd.<br>• Mae gan Fro Morgannwg gyfoeth o dirweddau pwysig, sydd i gyd yn wynebu pwysau datblygu unigryw. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg, chwe Ardal | • Mae'n ofynnol i'r CDLIN gynnwys Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG) ac mae hwn yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ochr yn ochr â Chynllun Seilwaith Gwyrdd ar gyfer y Cyngor cyfan. Bydd yr ASG yn galluogi cyfle ar gyfer dull cyfannol o gynllunio a darparu rhwydwaith o fannau gwyrdd sy'n cynnig manteision amlswyddogaethol ar draws ystod o feysydd gan gynnwys yr economi, iechyd a llesiant a bioamrywiaeth. |

16 Prosiect Trin Gwastraff Organig Caerdydd
17 Cyngor Bro Morgannwg yn datgan argyfwng natur [Datganiad i'r Wasg]

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | Tirwedd Arbennig a saith Lletem Las fel dynodiadau. | • Defnyddir papurau cefndir technegol perthnasol wedi'u diweddaru ynghyd ag elfennau eraill o'r gwaith ASG i lywio polisïau'r cynllun ac i ddatblygu dull cadarn o wella bioamrywiaeth, cynyddu gwydnwch ecolegol, a gwella canlyniadau llesiant. Bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn cael ei gynnal, a fydd yn gwerthuso effaith debygol y CDLIN ar safleoedd Ewropeaidd.<br>• Bydd y sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â Lletemau Glas ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael ei adolygu fel rhan o'r CDLIN a bydd polisïau newydd yn cael eu creu gan gynnig amddiffyniad i'r dynodiadau hyn. Mae Methodoleg y Safleoedd Ymgeisiol hefyd yn ystyried effaith datblygiad newydd arnynt. |

*Thema 6 – Cofleidio Diwylliant a Threftadaeth*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Diogelu asedau treftadaeth** | • Mae 53km o arfordir yn y Fro, gan gynnwys 23km o Arfordir Treftadaeth Morgannwg, sy'n rhoi cyfleoedd i gerddwyr a beicwyr[8], gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru Gyfan o Ynys y Barri i Benarth[18].<br>• Mae 38 o Barciau a Gerddi Cofrestredig yn y Fro[8].<br>• Mae Twyni Merthyr Mawr, Cynffig, Margam a Llancarfan oll ar y Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru[19].<br>• 40 Ardal Gadwraeth ac mae 740 o adeiladau rhestredig ym Mro Morgannwg[19], 33 ohonynt yn Rhestredig Gradd I[8].<br>• Mae 1,240 o Drysorau Sirol lleol wedi eu cofnodi o fewn y Fro, sy'n cynnwys adeiladau ac adeiladwaith â chanddynt ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol arbennig[19].<br>• 114 o Henebion Cofrestredig wedi'u dynodi ledled y Fro y mae angen eu parchu a'u cadw[19].<br>• Crynodiadau o ddiddordeb archaeolegol a welir o amgylch aneddiadau allweddol[8] sy'n chwarae rhan allweddol yn y cyd-destun hanesyddol/pensaernïol lleol ac sy'n gallu atgyfnerthu ymdeimlad o gymeriad lleol. | • Bydd y CDLIN yn sicrhau bod cynigion datblygu yn diogelu ac yn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig/hanesyddol lle bo hynny'n bosibl.<br>• Bydd y CDLIN yn ceisio diogelu a gwella cymeriad arbennig a harddwch naturiol yr arfordir tra'n galluogi ei fwynhad a hwyluso ei ddefnydd parhaus ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau economaidd priodol eraill.<br>• Mae'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol yn faen prawf allweddol lle bydd safleoedd posibl i'w dyrannu yn y CDLIN yn cael eu hasesu fel rhan o'r broses Asesu Safleoedd Ymgeisiol.<br>• Fel rhan o ddatblygu'r CDLIN, bydd y Cyngor yn ymgynghori ag Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent sy'n curadu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yr awdurdod. |

18 Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026 – Datganiad Ysgrifenedig (Mehefin 2017)
19 Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, 1998

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Cadw'r Gymraeg** | • Rhwng Cyfrifiad 2001 a 2011 gostyngodd canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg o 11.3% yn 2001 i 10.8% yn 2011[20].<br>• Fodd bynnag, mae Bro Morgannwg yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig sydd wedi gweld cynnydd yng nghanran y rhai tair oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021; gwelwyd cynnydd o 0.7% yn y Fro, gan godi canran siaradwyr Cymraeg y Fro i 11.5%, ym mis Mawrth 2021[21]. | • Ar sail dwysedd defnydd y Gymraeg ar draws Bro Morgannwg, nid yw'n cael ei ystyried yn Fater mawr sydd angen mynd i'r afael ag ef yn y CDLIN.<br>• Dylai datblygiad y CDLI liniaru yn erbyn cynigion a allai gael eu hystyried fel eu bod yn cael effaith niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg.<br>• Bydd y gwaith o baratoi'r CDLIN hefyd yn ystyried Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor lle bo hynny'n briodol. |
| **Hyrwyddo ac annog twristiaeth gynaliadwy** | • Yn ôl tystiolaeth arolwg blynyddol STEAM Bro Morgannwg (Scarborough Tourism Economic Activity Monitor) gwelwyd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a refeniw o dwristiaeth rhwng 2010 a 2021; yn bennaf, mae hyn yn debygol o fod oherwydd effeithiau pandemig COVID-19[13].<br>• Yng ngoleuni'r Argyfwng Hinsawdd, rhaid i benderfyniadau defnydd tir sy'n ymwneud â phob sector ymdrechu i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol lle bo modd. | • Bydd angen i'r CDLIN ystyried cyfleoedd i hyrwyddo a gwella cyfleoedd i ymwelwyr gymryd rhan mewn mathau o dwristiaeth sy'n cael cyn lleied o effaith â phosib ar yr amgylchedd.<br>• Dylai'r CDLIN geisio annog datblygu cynigion sy'n hwyluso twristiaeth gynaliadwy.<br>• Bydd Polisi MG7 – 'Darparu Cyfleusterau Cymunedol' yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod cyfleusterau diwylliannol presennol yn cael eu diogelu a bod yr egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf a amlinellir yn Cymru'r Dyfodol yn cael ei hadlewyrchu.<br>• Polisi MG28 – Bydd angen adolygu 'dyraniadau Mannau Agored Cyhoeddus' fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLIN. |

[20] Bwletin Ystadegol Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf ar y Gymraeg
[21] Cyfrifiad 2021: Y Gymraeg yng Nghymru

*Thema 7 – Meithrin Cymunedau Amrywiol, Bywiog a Chysylltiedig*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Amrywiaeth a Chynhwysiant** | • Fel y mesurwyd gan Arolwg Blynyddol y Boblogaeth, canran y boblogaeth yr amcangyfrifwyd eu bod yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol oedd 2.1% yn 2020 o'i gymharu â 5.3% ar gyfer Cymru gyfan[22].<br>• Yn ôl data cyfrifiad 2021, doedd 5.8% o bobl ym Mro Morgannwg heb eu geni yn y DU, ac mae hyn yn gynnydd o 0.9% ers 2011[23]. | • Bydd y Cynllun yn annog a hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol a bydd yn sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau crefyddol, diwylliannol ac ethnig yn cael eu hystyried mewn penderfyniadau cynllunio.<br>• Bydd y CDLIN yn sicrhau bod pob grŵp yn cael eu hystyried yn deg o fewn y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei asesu gan yr ACI, sy'n ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. |
| **Cymunedau Cydlynus** | • Datgelodd astudiaethau yn ei chyfanrwydd, fod gan Fro Morgannwg ddigon o ofod llawr cymunedol ar hyn o bryd o'i gymharu â maint y boblogaeth, fodd bynnag, mae hyn wedi'i ganoli yn aneddiadau mwy eu maint Penarth, y Barri a Llanilltud Fawr. Pan gaiff ei asesu ar lefel ward, roedd diffyg gofod gan 11 allan o 23 ward[12].<br>• Mae ffactorau cymunedol fel ymdeimlad o berthyn i ardal, cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a'r gallu i lywio penderfyniadau mewn ardal i gyd yn cyfrannu at les cymuned[3]. | • Mae cyfleusterau cymunedol yn asedau pwysig, felly drwy'r CDLIN bydd y cyfleusterau cymunedol presennol yn cael eu diogelu a bydd adeiladau a mannau cymunedol hygyrch newydd yn cael eu hannog lle bo hynny'n briodol, yn enwedig mewn aneddiadau gwledig.<br>• Bydd y Cynllun yn gofyn i gynigion datblygu ac uwchgynllunio i ystyried sut y gall yr amgylchedd adeiledig hwyluso cydlyniant cymunedol a rhyngweithio cymdeithasol. |

[22] StatsWales: Ethnigrwydd yn ôl Ardal a Grŵp Ethnig
[23] Cyfrifiad 2021: Gwlad Geni (Manwl)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | • Mae rhyngweithio cymunedol wedi newid o ganlyniad i gau lleoliadau diwylliannol, llai o weithredu gwasanaethau wyneb yn wyneb a chynnydd mewn profiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol[3]. | |
| **Ymgysylltu Effeithiol** | • Mae Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC) yn nodi sut a phryd y bydd ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid yn cael ei gynnal drwy gydol camau paratoi y CDLIN, gan ganiatáu i'r cyhoedd gymryd rhan yn briodol ar bob cam[24].<br>• Mae'r CCC yn nodi sut y bydd technegau ymgysylltu yn cael eu defnyddio i gynnwys grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd, er enghraifft gan ddefnyddio asiantaethau presennol[24].<br>• Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal cyfres o weithdai gydag Aelodau'r Cyngor, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a Chynghorau Tref a Chymuned y Fro. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i drafod y prif faterion ym Mro Morgannwg a rhoi mewnbwn i ddatblygiad Gweledigaeth ac Amcanion arfaethedig y CDLIN. | • Ar hyd pob cam o'r gwaith paratoi a mabwysiadu'r CDLIN bydd ymgysylltu ac ymgynghori effeithiol yn cael ei gynnal fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni. Mae copïau eraill o'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r CDLIN e.e. print bras/Cymraeg ar gael ar gais gan Adran Gynllunio'r Cyngor.<br>• Bydd crynodebau annhechnegol o nifer o ddogfennau cysylltiedig â'r CDLIN yn cael eu paratoi ac ar gael pan fydd hynny'n briodol.<br>• Bydd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y broses ymgynghori mor gynhwysol â phosibl. |

[24] Cytundeb Cyflawni CDLIN Bro Morgannwg 2021 – 2036 (Mai 2022)

## *Thema 8 – Hyrwyddo Dewisiadau Teithio Llesol a Chynaliadwy*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Teithio Llesol** | • Mae lefelau teithio llesol ym Mro Morgannwg yn gymharol isel ac mae Llwybrau Teithio Llesol yn gyffredinol yn canolbwyntio ar y prif aneddiadau[25].<br>• Mae 65 o Lwybrau Teithio Llesol (cerdded, beicio a rhannu defnydd) ym Mro Morgannwg, cyfanswm o 83.26km o hyd[26].<br>• Mae dyfeisiau cyfrif beics yn casglu data ynglŷn â'r defnydd o Lwybrau Teithio Llesol y Fro gan feicwyr yn ddyddiol; yn 2021, y ddyfais ar Port Road, y Barri gofnododd y ffigwr defnydd uchaf ym mis Gorffennaf gyda chyfartaledd o 95 defnydd[27].<br>• Yn ôl arolwg a gwblhawyd gan yr 8 ysgol uwchradd o fewn yr awdurdod, mae lefel teithio llesol i'r ysgol yn y Fro yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol; cynyddodd lefelau teithio llesol o 38% i 41% rhwng 2017 a 2019[26].<br>• Mae cynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a'r nifer sy'n manteisio ar deithio llesol yn flaenoriaeth leol a chenedlaethol ac mae'n cael sylw drwy Gynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015-2030[28] a Llwybr Newydd Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021[29]. | • Bydd y Cynllun newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015-2030.<br>• Un o brif flaenoriaethau'r CDLIN sy'n dod i'r amlwg fydd annog newid moddol tuag at fathau mwy cynaliadwy a llesol o deithio.<br>• Bydd y CDLIN yn ceisio lleihau'r angen i deithio drwy sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u lleoli'n briodol mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch a'u cynllunio i hwyluso cerdded a beicio fel dewisiadau amgen i'r car preifat.<br>• Bydd y CDLIN yn ymdrechu i ddiogelu tir ar gyfer darparu cynlluniau teithio llesol. |

[25] Rhaglen Bro Morgannwg ar gyfer Teithio Llesol
[26] Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
[27] Data Dolennau Beicio Bro Morgannwg (Awst 2022)
[28] Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015 - 2030
[29] Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | | |
| **Cysylltedd gwledig** | • Prin iawn yw gwasanaethau bysiau gwledig y tu allan i aneddiadau mawr ym Mro Morgannwg[14].<br>• Mae gwasanaethau rheilffordd wedi eu cyfyngu i aneddiadau mwy eu maint ar hyd rheilffordd Bro Morgannwg.<br>• Gwasanaethir Bro Morgannwg gan nifer o brif ffyrdd, gan gynnwys yr A48, yr A4050, A4055, A4226, B4270 a'r B4265, sy'n cysylltu llawer o aneddiadau gwledig y Fro. | • Bydd y CDLIN yn cyfeirio datblygiadau newydd i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy a hygyrch i ddefnyddio dulliau trafnidiaeth gynaliadwy i'r eithaf.<br>• Bydd y Cynllun yn cefnogi gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus sy'n bodoli eisoes, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r cyfleoedd sydd ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio mewn gorsafoedd rheilffordd. |
| **Ansawdd Aer** | • Ym Mro Morgannwg, tyfodd allyriadau carbon o drafnidiaeth yn fwy nag allyriadau domestig yn 2014 fel yr allyrrydd CO2 uchaf ond un ym Mro Morgannwg[2].<br>• Yn 2019 roedd allyriadau trafnidiaeth yn gyfrifol am 20% o allyriadau CO2 Bro Morgannwg[2].<br>• Roedd 54% o'r allyriadau CO2 a gynhyrchid gan drafnidiaeth yn sgil trafnidiaeth ar isffyrdd[2].<br>• Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i Arolwg Amser Siarad y Cyngor ynghylch llesiant yn disgwyl i amodau traffig a llygredd aer waethygu rhwng 2021 a 2026[2]. | • Yn gyffredinol, nod y Cynllun newydd fydd annog newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Bydd angen i'r CDLIN sicrhau bod datblygiadau newydd yn lleihau'r angen i deithio, yn ymgorffori pwyntiau gwefru cerbydau trydan lle bo modd, ac â hygyrchedd da i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau allyriadau sy'n deillio o drafnidiaeth. |
| **Seilwaith Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV)** | • Hyd yn hyn, mae 13 o Bwyntiau Gwefru EV yn gwneud cyfanswm cyfun o 34 soced weithredol wedi'u gosod ym Mro Morgannwg. Mae 4 pwynt arall sy'n darparu 8 soced ar y cam cyn adeiladu, gydag | • Bydd y CDLIN yn cefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth o bwyntiau gwefru ULEV a gwelliannau i ansawdd a maint Llwybrau Teithio Llesol yn y Fro. |

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | 1 pwynt arall yn cynnig socedi wedi cael ei gomisiynu[30].<br>• Mae'n ofynnol i 10% o'r holl lefydd parcio gael mynediad at gyfleusterau gwefru ar safleoedd di-breswyl; mae'r ffigwr hwn o 10% yn cael ei annog ar safleoedd preswyl[31].<br>• Mae Project Sero yn ymrwymo'r Cyngor i gael fflyd o geir cronfa ULEV ac yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi croesawu ei 12 Car Cronfa ULEV cyntaf[32].<br>• Mae'r Cyngor yn archwilio i bosibilrwydd polisi gwefru preswyl ar y stryd yn y dyfodol i alluogi gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan ar y stryd sydd yn gyfleus, priodol, teg, hygyrch a chadarn i breswylwyr ym Mro Morgannwg[33]. | • Bydd y Cynllun newydd yn sicrhau'r ddarpariaeth barcio o fewn datblygiadau newydd, yn unol â chanllawiau parcio cymeradwy'r Cyngor. Fodd bynnag, bydd darpariaeth parcio ar gyfer cerbydau modur yn digwydd law yn llaw â seilwaith sy'n cefnogi dewisiadau teithio amgen, mwy cynaliadwy. |
| **Cymudo** | • Ers 2011 mae lefel y traffig ffyrdd ym Mro Morgannwg wedi bod yn cynyddu gan gyrraedd ei anterth yn 2019[2].<br>• Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ers 2021, mae 53.6% o bobl 16 oed a hŷn sydd mewn cyflogaeth sy'n byw ym Mro Morgannwg naill ai'n gyrru neu'n deithiwr mewn car neu fan er mwyn cyrraedd y gwaith[34]<br>• Mae tua 5.9% o drigolion y Fro sydd yn 16 oed a throsodd mewn cyflogaeth yn cerdded i'r gwaith[35]. | • Annog a hwyluso newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy a llesol, fel cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br>• Lleihau'r angen i deithio ar gyfer cyflogaeth trwy batrymau cynaliadwy o ddefnydd tir a datblygu.<br>• Annog/hwyluso mewnfuddsoddiad a chyfleoedd cyflogaeth lleol drwy argaeledd safleoedd.<br>• Creu cyfleoedd i wella amlder ac argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar gyfer cymunedau gwledig. |

[30] Ymarferiad Ôl Troed Carbon Bro Morgannwg - Elfen Trafnidiaeth (Hydref 2022)
[31] Safonau Parcio CCA (Mawrth 2019) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2036
[32] Prosiect Sero - Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg (2021)
[33] Adroddiad Polisi Gwefru ar y Stryd Drafft Bro Morgannwg (2023)
[34] SYG yn Adeiladu Proffil Ardal Bwrpasol (Cyfrifiad 2021)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | • Dim ond 1% o drigolion y Fro sydd yn 16 oed a throsodd sydd mewn cyflogaeth sydd yn beicio i'r gwaith[35].<br>• **Pwysig nodi** - efallai na fydd data a gasglwyd i fwydo Cyfrifiad 2021 yn adlewyrchu patrymau cymudo presennol, yn enwedig oherwydd newidiadau mewn arferion gwaith yn ystod ac o ganlyniad i bandemig Covid-19. | |

*Thema 9 – Creu Economi Ffyniannus a Gwyrdd*

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Twf Economaidd** | • Mae Bro Morgannwg yn gartref i 14,320 o fusnesau a diwydiannau a 900ha o safleoedd cyflogaeth presennol[8].<br>• Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan sy'n ceisio ehangu'r sector awyrofod a chynnal a chadw sydd wedi datblygu yn yr ardal[8].<br>• Mae gan Barc Busnes Awyrofod Bro Tathan y potensial datblygu ar gyfer hyd at 3 miliwn troedfedd sgwâr o ofod llawr cyflogaeth[8].<br>• Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl mabwysiedig y Cyngor yn dangos bod swm sylweddol o dir wedi cael caniatâd cynllunio ar safleoedd cyflogaeth strategol ond bod manteisio ar safleoedd cyflogaeth lleol wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf[35].<br>• Mae lleoliad Bro Morgannwg o fewn Prifddinas-Ranbarth Prifddinas Caerdydd yn hwyluso mynediad i raglen fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn, gan gynnwys darparu Metro De Cymru[8].<br>• Mae Bro Morgannwg wedi'i nodi o fewn Ardal Twf De Ddwyrain Cymru sydd wedi'i hamlinellu yng Nghymru'r Dyfodol[36]. | • Bydd y CDLIN yn ceisio sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer twf economaidd a gyflwynir gan safleoedd cyflogaeth lleol a strategol sydd wedi'u lleoli ledled Bro Morgannwg.<br>• Mae gan y CDLIN botensial i gefnogi twf economaidd drwy hwyluso datblygu'r Ardal Fenter.<br>• Bydd paratoadau'r CDLIN yn ystyried cyfleoedd ar gyfer twf economaidd a hwylusir gan bresenoldeb Bro Morgannwg ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn Ardal Twf De Ddwyrain Cymru.<br>• Bydd angen i'r CDLIN ystyried sut y gall polisi gynnwys tueddiadau mewn arferion siopa, natur newidiol manwerthu a rôl ddatblygol canol ein trefi, a'n canolfannau ardal a lleol. |

[35] Adroddiadau Monitro Blynyddol 1[af], 2[il], 3[ydd] a 4[ydd] Ebrill 2018 i Mawrth 2022 (Hydref 2019, 2020, 2021 a 2022) Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026
[36] Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| **Cyflogaeth** | • Mae cyfradd cyflogaeth Bro Morgannwg wedi bod yn gyson uwch na chyfradd cyfartalog Cymru[8].<br>• Dengys data Nomis fis Mawrth 2021 bod 5.4%, (4,310 o bobl) ym Mro Morgannwg yn ddi-waith.[13].<br>• Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob sector diwydiant, mae'r Sector Gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau 'sy'n ymwneud â chwsmeriaid' fel Gwasanaethau Llety a Bwyd, wedi dioddef yn drwm[8].<br>• Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos, er bod cyfleoedd cyflogaeth fel arfer yn gryf ym Mro Morgannwg, fod rhai ardaloedd – yn fwyaf nodedig yn nwyrain y Barri – lle mae pobl yn ei chael hi'n anodd cyrchu cyfleoedd cyflogaeth.[37]<br>• Mae Parth Incwm MALIC 2019 yn mesur cyfran y bobl sydd ag incwm o dan lefel ddiffiniedig; mae tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) ym Mro Morgannwg yn y 10% uchaf o'r AGEHIau mwyaf difreintiedig yng Nghymru[3].<br>• Mae Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Bro Tathan yn cynnwys 550 ha o ofod cyflogaeth[8].<br>• Mae digidoli ac effeithiau pandemig COVID-19 wedi ysgogi patrymau gweithio ystwyth[7]. | • Bydd y Cyngor yn ceisio gwarchod tir a safleoedd cyflogaeth presennol, a gweithio gyda pherchnogion tir i ddod â thir sydd heb ei ddefnyddio/gwag ger bron mewn ardaloedd lle mae galw.<br>• Dylai'r CDLIN ymdrechu i helpu i hyrwyddo menter wledig ac arallgyfeirio.<br>• Gall y CDLIN hwyluso ac annog datblygu'r Parth Menter yn y dyfodol i sicrhau twf economaidd sylweddol ledled y rhanbarth, cefnogi swyddi o ansawdd uchel a hyfforddiant/addysg i drigolion y Fro.<br>• Bydd angen i'r CDLIN ystyried mynediad i'r we ledled Bro Morgannwg er mwyn manteisio ar y cyfleoedd economaidd a grëwyd drwy gyfrwng gweithio gartref a gweithio o bell. |
| **Cymudo allan i weithio** | • Erbyn 2021, mae data a gyhoeddwyd gan Stats Cymru yn dangos bod tua 60% o boblogaeth | • Bydd y CDLIN yn ceisio helpu i leihau cymudo drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau tai, |

[37] Asesiad Llesiant Bro Morgannwg - Adroddiad Addysg a'r Economi (Mai 2022)
[37] StatsCymru Patrymau Cymudo yn ôl Awdurdod Lleol a Mesur (2021)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | gweithio preswyl y Fro yn cymudo allan o'r ardal i weithio[38].<br>• Mae tua 8,100 o bobl yn teithio i mewn i Fro Morgannwg bob dydd ar gyfer gwaith[38].<br>• Mae 9,000 o bobl yn teithio i mewn i'r Fro o'r tu allan i'r Awdurdod er mwyn gwaith gyda'r gyfran uchaf, (1,400) yn dod o Ben-y-bont ar Ogwr[39]. | manwerthu a chyflogaeth newydd mewn lleoliadau hygyrch ym Mro Morgannwg<br>• Bydd y Cynllun newydd yn sicrhau bod modd gwneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy ar raddfa fach i ddigwydd y tu allan i aneddiadau mwy Bro Morgannwg.<br>• Y tu allan i'r prif safleoedd cyflogaeth, bydd y CDLIN yn ystyried, lle y bo'n briodol, ddatblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnig mwy o fudd i'r gymuned leol a chreu swyddi posib. |
| **Manwerthu** | • Wrth symud ymlaen, mae angen i ni sicrhau bod canolfannau manwerthu'n addasadwy e.e. hwyluso presenoldeb defnydd nad yw'n fanwerthu mewn canol trefi a chanolfannau ardal.<br>• Gwelwyd lleihad (5.05%) o ofod llawr manwerthu mewn canolfannau trefi ac ardal ers 2017, a chynnydd cyfatebol mewn gofod llawr swyddfa (41.34%) a gofod llawr hamdden (17.58%)[13].<br>• Yn ôl yr arolwg a gynhaliwyd yng Ngwanwyn 2022, cynyddodd cyfraddau eiddo gwag ar gyfartaledd mewn canolfannau manwerthu yn ystod cyfnod monitro 2021-2022; cyfradd gyfartalog eiddo gwag yng nghanol trefi'r Fro ar gyfer 2022 oedd 8.9%. Ond roedd y ffigwr yma ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 16.9%[13].<br>• Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddiwygiadau dros dro i'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref | • Bydd y gwaith o baratoi'r CDLIN yn cynnwys adolygiad o brif ardaloedd manwerthu ym Mro Morgannwg a bydd y polisïau CDLI canlynol a fabwysiedir yn cael eu hadolygu i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru, gofynion manwerthu yn y dyfodol a pholisi cenedlaethol:<br><br>➢ SP6 - Manwerthu<br>➢ MG12 - Hierarchaeth Manwerthu<br>➢ MG13 - Ardaloedd Manwerthu ar y Cyffiniau a'r Tu Allan i'r Dref<br>➢ MG14 - Defnyddiau Manwerthu nad ydynt yn A1 mewn Canolfannau Manwerthu Tref ac Ardal<br>➢ MG15 - Defnyddiau Manwerthu nad ydynt yn A1 mewn Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth<br><br>• Bydd y Cynllun newydd yn ceisio cefnogi canolfannau manwerthu ond hefyd yn cynnig |

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 i roi mwy o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau defnydd i ganol trefi hyd at 2 Ionawr 2022. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad tri mis ar wneud y newidiadau hyn yn barhaol. Mae canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn dal i gael ei ddisgwyl ym mis Chwefror 2023.<br>• Colli gwariant yn y sector manwerthu i Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr[19]. | cyfleoedd ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd.<br>• Bydd angen i'r CDLIN ystyried sut i addasu i newid mewn tueddiadau arferion siopa, natur newidiol manwerthu a rôl canol ein trefi a'n canolfannau ardal a lleol, yn ogystal ag effeithiau Covid-19 ar y sector manwerthu.<br>• Bydd y CDLIN yn ceisio gwella bywiogrwydd, hyfywedd a pha mor ddeniadol yw canol trefi a chanolfannau ardal, drwy adnewyddu ac ailddefnyddio eiddo gwag a hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel llefydd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd a all gefnogi anghenion cymunedau lleol. |
| **Twristiaeth** | • Mae gan Fro Morgannwg amrywiaeth o atyniadau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol ac sy'n gwella lles economaidd gan gynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg[39].<br>• Gostyngodd cyfanswm effaith economaidd twristiaeth ym Mro Morgannwg 26% rhwng 2019 a 2021[40].<br>• Bu gostyngiad o 22.4% (970,000 o ymwelwyr) yng nghyfanswm yr ymwelwyr â'r awdurdod rhwng 2019 a 2021[42].<br>• Yn ôl Adroddiad STEAM, rhwng 2019 a 2021 gwelwyd cwymp o 28.6% yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a oedd yn cael eu cyflogi yn y sector twristiaeth[42]. | • Fel rhan o baratoi'r CDLIN, bydd y polisïau CDLI mabwysiedig canlynol yn cael eu hadolygu:<br><br>➢ SP11 - Twristiaeth a Hamdden<br>➢ MD13 - Twristiaeth a Hamdden<br>➢ MG29 - Cyfleusterau Twristiaeth a Hamdden<br><br>• Bydd y CDLIN yn ymdrechu i gefnogi cynnydd yn nifer y datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaid, nifer yr ymwelwyr, hyd aros a gwario fesul pen.<br>• Bydd y Cynllun newydd yn ceisio hyrwyddo twristiaeth briodol, gynaliadwy, effaith isel.<br>• Bydd paratoi'r CDLI yn ystyried sut i wneud y gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan Faes Awyr Caerdydd. |

39 Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg: Amddiffyn, Gwella a Gwerthfawrogi'r Amgylchedd
40 Adroddiad Tueddiad Terfynol STEAM ar gyfer 2010 - 2021 Bro Morgannwg (Medi 2022)

| Prif Faterion | Tystiolaeth Bresennol | Sut gall y CDLIN fynd i'r afael â'r Materion hyn? |
|---|---|---|
| | • Rhwng 2019 a 2021 gwelwyd gostyngiad o 28.4% yng nghyfanswm nifer yr ymwelwyr dydd[42].<br>• Gellir priodoli'r tueddiadau negyddol cyffredin a welwyd rhwng 2019 a 2021 i bandemig Covid-19, cau busnesau yn ei sgil a chyfnodau clo ysbeidiol wedi hynny[8]. | • Bydd y CDLIN yn gwneud darpariaethau ar gyfer gwarchod a gwella cyrchfannau allweddol i dwristiaid ym Mro Morgannwg, fel glan môr Ynys y Barri a Bae Whitmore. |

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Adfywio a Chynllunio
Swyddfa'r Doc
Dociau'r Barri
Y Barri CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

